**Bwrdd S4C**
Cyfarfod 484
10:00, 21 Mai 2026
Yr Egin, Caerfyrddin

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol – yn rhithiol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Brad Cole [BC], Rheolwr Prosiect BSM (ar gyfer eitem 4)
- Beth Angell [BA], Pennaeth Adloniant ac Adloniant Ffeithiol (ar gyfer eitem 5)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, ac Aelodau eraill y Bwrdd**<br><br>Rhannwyd trosolwg o weithgareddau a chyfarfodydd diweddar DE gyda rhanddeiliaid allweddol.<br><br>Rhoddwyd diweddariad ar y penodiadau o aelodau anweithredol i'r Bwrdd.<br><br>Nodwyd bod DE a DLP wedi mynychu cinio blynyddol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Rhoddodd Lauren Morais – a dderbyniodd ysgoloriaeth gan S4C i astudio yn y Coleg – anerchiad yn ystod y digwyddiad, gan ddiolch i S4C am y cymorth. Nodwyd ei bod wedi ymddangos yn Ar y Ffin ac ers hynny wedi symud ymlaen i weithio ar gynhyrchiad Marvel. Eglurwyd nad yw'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu bob blwyddyn, | |

| | | |
|---|---|---|
| | gan ddibynnu ar addasrwydd ymgeiswyr, a mynegwyd balchder bod S4C wedi gallu cefnogi Lauren Morais.<br><br>Cyflwynwyd crynodeb o arfarniadau blynyddol aelodau'r Bwrdd, gyda GP yn egluro pwysigrwydd sicrhau bod cofnod clir bod yr arfarniadau wedi'u cwblhau. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i rannu'r canlyniadau cadarnhaol gyda'r DCMS fel rhan o'r broses lywodraethu a thryloywder.<br><br>Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r Bwrdd ar wahanol faterion nad oeddent yn ymddangos ym mhapurau'r cyfarfod:<br><br><u>Etholiad 2026</u><br><br>Nododd GE ei fod yn falch iawn o'r cynnwys a ddarparwyd o amgylch Etholiad 2026, gan bwysleisio'r dull digidol yn gyntaf a gafodd ei fabwysiadu. Mynegodd werthfawrogiad o'r cynnwys a ddarparwyd gan y BBC yn ogystal â chyfraniad tîm newyddion digidol S4C, gyda diwrnod y canlyniadau yn nodi'r diwrnod prysuraf erioed ar gyfer ap a gwefan Newyddion S4C.<br><br>Trafodwyd hefyd y disgwyliad i ddarparu llwyfan i arweinyddion pleidiau gwleidyddol. Nodwyd fod y ddadl fawr yn teimlo'n wahanol eleni, o bosibl oherwydd nifer yr arweinyddion a gymerodd ran.<br><br>Cyfeiriwyd at ymrwymiad S4C i gefnogi'r llif o newyddiadurwyr newydd Cymraeg eu hiaith, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cynnwys gwleidyddol yn cael ei deilwra ar gyfer cynulleidfaoedd iau, gan gynnwys cyfeiriad at fentrau fel Hansh Dim Sbin.<br><br><u>Cynllun Rhaglenni'r BBC</u><br><br>Nodwyd y bydd darpariaeth rygbi byw bellach y tu allan i'r cynllun, gyda'r bwriad o fynd allan i dendr i gwmni cynhyrchu annibynnol ddarparu'r cynnwys.<br><br><u>Pobl a Diwylliant</u><br><br>Llongyfarchwyd NB a'r tîm Pobl a Diwylliant ar eu llwyddiant yn ennill gwobr yng Ngwobrau AD Cymru, gan gydnabod eu gwaith a'u cyfraniad nodedig. | |
| 3. | **Adolygu perfformiad ein cynnwys yn ystod y flwyddyn flaenorol**<br><br>Esboniodd GP bod y papurau'n cynnwys drafft o Adolygiad Polisi Cynnwys 2025–26, oedd angen i S4C ei gyhoeddi er mwyn cwrdd â gofynion Ofcom. Eglurodd y bydd fformat yr adrodd yn newid yn sgil cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cynnwys ar gyfer 2026, sy'n alinio â chanllawiau diweddaraf Ofcom. Byddai pwyslais cynyddol ar sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei remit darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), gan gynnwys meysydd megis cynnwys plant, newyddion ac argaeledd y chwaraewyr. Cadarnhawyd y bydd adrodd yn erbyn y Datganiad hwn yn digwydd ymhen blwyddyn, ond ar gyfer eleni, byddai S4C yn cadw at y dull blaenorol o adrodd, gan ddarparu trosolwg ehangach o'r cynnwys fesul genre.<br><br>Cyflwynodd Ll data ynghylch perfformiad cynnwys S4C yn ystod 2025–26, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynnwys ar 13 Mai 2026. Amlinellodd BP y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor Cynnwys yn y cyfarfod hwnnw: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Roedd nifer o'r cwestiynau a godir gan y Bwrdd – megis beth yw ystyr "digidol yn gyntaf" – hefyd yn cael eu codi gan staff.<br>• Amlygwyd her allweddol sef bod gan S4C amserlen linol i'w llenwi, tra bod yn anelu i weithredu'n debycach i blatfformau fel Netflix nad ydynt yn wynebu'r un cyfyngiadau, ac felly bod angen eglurder pellach ar y strategaeth yn y maes hwn.<br>• Pwysleisiwyd yr angen i fod yn glir wrth gomisiynu fel bod cwmnïau'n deall yr amcanion ac yn atebol am eu llwyddiant.<br>• Nodwyd hefyd fod rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn aml yn ymddangos ar waelod rhestri perfformiad – yn bennaf am eu bod yn cael eu hasesu drwy lens linol nad yw'n adlewyrchu patrymau gwylio'r gynulleidfa honno.<br>• Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydnabod methiannau ymysg ein cynnwys, a dysgu oddi wrthynt er mwyn gwella i'r dyfodol.<br>• Cydnabuwyd bod llawer wedi'i drafod yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor, a'i fod o ganlyniad yn gymharol ddi-strwythur, ond y bydd y Pwyllgor i'r dyfodol yn ffocysu ar elfennau penodol (megis genre, neu garfan o'r gynulleidfa).<br><br>Yng nghyd-destun y data, tynnodd Ll sylw at y newidiadau sydd eisoes ar waith o ran dulliau cynhyrchu cynnwys, gyda mwy o gydweithio â'r sector annibynnol. Amlygodd hefyd y duedd gynyddol o gomisiynu sawl cyfres ar yr un pryd, gan gynnwys cytundebau tymor hwy (megis cytundebau tair blynedd) sy'n cynnwys cymalau torri perthnasol. Cadarnhawyd bod trafodaethau parhaus yn digwydd rhwng y chomisiynwyr a'r sector, er enghraifft ynghylch agor prosesau tendro ar gyfer cyfresi sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r un cwmni cynhyrchu ers cyfnod estynedig.<br><br>Nododd Ll fod angen ystyried yn ofalus sut yr ydym yn mesur perfformiad, a beth yn union sy'n cael ei fesur. Cydnabuwyd bod ffigyrau gwylio llinol yn darparu dim ond rhan o'r darlun. Pwysleisiwyd yr angen i esblygu fframwaith mesur mwy cynhwysfawr sy'n adlewyrchu ymddygiad cynulleidfaoedd ar draws llwyfannau. Pwysleisiwyd gwerth dysgu o arferion gorau darlledwyr tebyg, a datblygu dull sy'n galluogi cymharu perfformiad yn ystyrlon dros amser ac ar draws genres, gan gefnogi gwell penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.<br><br>Cytunwyd mai cynyddu niferoedd gwylio yw'r prif amcan strategol, ond pwysleisiwyd nad yw maint y gynulleidfa yn fesur cyflawn o lwyddiant. Trafodwyd a ddylid ailgyfeirio cyllid comisiynu tuag at genres sy'n dangos perfformiad cryfach pan fo tystiolaeth glir o hynny, gan gydnabod ar yr un pryd bod angen parhau i fuddsoddi mewn rhai genres sy'n allweddol i'r remit gyhoeddus – er gwaethaf perfformiad gwylio cymharol is. Codwyd hefyd y posibilrwydd o feincnodi perfformiad genres yn erbyn darlledwyr eraill er mwyn darparu cyd-destun ehangach.<br><br>Oherwydd diffyg amser, cytunwyd i ddychwelyd at drafodaeth fanylach ar strategaeth y chwaraewyr yn hwyrach yn y flwyddyn.<br><br>**Penderfyniad: I drefnu trafodaeth yn y Bwrdd yn hwyrach yn y flwyddyn ar strategaeth S4C o ran ein chwaraewyr.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Adolygiad Polisi Cynnwys ar gyfer 2025–26, i'w gyflwyno i Ofcom.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4. | [ymunodd BC â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad ar y prosiect BSM**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd BC i'r cyfarfod, ac aeth ymlaen i gyflwyno ei sleidiau. Esboniodd fod BSM bellach yn 25 oed ac wedi'i hadeiladu ar hen dechnoleg nad yw mwyach yn diwallu anghenion darlledwr modern, aml-blatfform. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno system newydd a chyfoes, a phwysleisiwyd mai rhaglen newid busnes sylfaenol yw hwn, gyda thechnoleg yn gweithredu fel galluogwr i'r newid.<br><br>Cymerodd y broses o lunio'r tendr gyfanswm o 18 mis, gan ddechrau gyda chyfres o weithdai ar draws y sefydliad, ynghyd â chyflwyniadau gan ddarpar gyflenwyr. Bu'r broses hon yn allweddol wrth helpu S4C i adnabod a diffinio ei ofynion. Penodwyd "uwch-ddefnyddwyr" o bob rhan o'r busnes i gyfrannu at y gwaith, gan adlewyrchu natur y rhaglen fel un sy'n ymwneud â newid busnes, nid technoleg yn unig. Nodwyd hefyd fod amserlen weithredu o 14 mis wedi'i chynllunio, gan gynnwys lwfans ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.<br><br>Holwyd ym mha iaith fydd y meddalwedd ar gael. Mae pob cyflenwr yn ymdrin â hyn mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, ond mae pob un yn ymwybodol o'n gofyniad bod y system yn gwbl ddwyieithog. Gan mai platfformau byd-eang yw'r rhain, maent yn gallu darparu rhyngwyneb Cymraeg o safon, ochr yn ochr â'r Saesneg, heb fawr o drafferth.<br><br>Holwyd a fydd adolygiad o sgiliau staff a phrosesau gwaith yn rhan o'r prosiect. Disgwylir y bydd y system newydd yn arwain at fwy o effeithlonrwydd ac yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion ailystyried sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau o ddydd i ddydd. Pwysleisiwyd hefyd y bwriad i ddigomisiynu'r system bresennol yn ei chyfanrwydd, ac felly mae'n hanfodol bod y system newydd yn cael ei mabwysiadu'n llawn ar draws y sefydliad a'r sector.<br><br>Trafodwyd rôl Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn natblygiad y platfform, gan nodi pwysigrwydd deall pa elfennau o AI fydd yn cael ei gynnig gan y systemau sydd wedi eu cynnig fel rhan o'r broses dendro. Pwysleisiwyd bod angen ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd posibl, ond hefyd o'r gofynion llywodraethu, yn enwedig o ran sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw elfennau AI a fydd yn rhyngweithio â systemau'r BBC.<br><br>Cyflwynodd BC drosolwg o'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y cwestiwn ynghylch cryfder y berthynas gyda'r BBC, a'r angen i sicrhau bod cefnogaeth ac ymrwymiad digonol ar eu rhan i gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus. Y bwriad yw sefydlu bwrdd prosiect fyddai'n cwrdd bob pythefnos (unwaith ag y byddai'r darparwr terfynol wedi ei benodi), gyda chynrychiolaeth o'r BBC, er mwyn sicrhau trefniadau llywodraethu cryf a chydweithio parhaus, yn ogystal â sicrhau eu mewnbwn yn y cam dylunio.<br><br>Adroddodd SuD fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi trafod risgiau'r prosiect yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2026. Nodwyd bod sicrwydd sylweddol wedi'i roi yn dilyn archwiliad mewnol ar barodrwydd y prosiect, ac fe drafodwyd hefyd y mater o bwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod ymrwymiadau cytundebol yn cael eu cyflawni. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd GE fod penodiad BC fel Rheolwr Prosiect yn rhoi hyder i'r UDA y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni'n brydlon ac o fewn y gyllideb. Mynegwyd gwerthfawrogiad hefyd am ansawdd ei gyflwyniad, a diolchwyd iddo am gyflwyno trosolwg clir a chynhwysfawr.<br><br>[gadawodd BC y cyfarfod]<br><br>Nodwyd bod y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer BSM eisoes wedi'i neilltuo, ac yn ffurfio rhan o gyllideb y flwyddyn gyfredol ynghyd â'r blynyddoedd i ddod. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i sicrhau bod yr hen BSM yn cael ei digomisiynu'n llwyr, er mwyn osgoi unrhyw risgiau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â seibr ddiogelwch. Nodwyd y posibilrwydd y gallai unigolion geisio manteisio ar hen systemau fel modd o gael mynediad i'r rhwydwaith pe na bai'r systemau hyn yn cael eu tynnu allan yn briodol.<br><br>Trafodwyd y penderfyniad i beidio â phenodi Prif Swyddog Technoleg (CTO) i olynu Steve Cowin yr haf diwethaf. O ganlyniad, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu model newydd er mwyn sicrhau arweinyddiaeth addas ar faterion technoleg i'r dyfodol.<br><br>**Penderfyniad: Bod y Bwrdd yn derbyn diweddariad yn ei gyfarfod llawn nesaf ar sut bydd cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Technegol blaenorol sy'n parhau'n berthnasol yn cael eu cyflawni i'r dyfodol.** | |
| 5. | [ymunodd BA â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad gan aelod o staff – Beth Angell, Pennaeth Adloniant ac Adloniant Ffeithiol**<br><br>Croesawyd BA i'r cyfarfod, a rhannodd trosolwg o'r llechen adloniant.<br><br>Cyfeiriwyd at brofiadau gyda chynyrchiadau fel *Amour a Mynydd*, lle dysgwyd bod buddsoddi mewn deunydd gwreiddiol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol o ail gyfres ymlaen yn fwy effeithiol na dibynnu ar glipiau a threls yn unig. Nodwyd bod hyn wedi arwain at gynnydd mewn 'impressions' ac 'engagement', a bod diddordeb cynulleidfaoedd yn parhau hyd yn oed ar ôl i'r darllediad ddod i ben. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd darparu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ymlaen llaw, er mwyn meithrin momentwm ac ymgysylltiad gyda'r algorithm cyn lansio'r darllediad.<br><br>Yn dilyn honiadau a godwyd ynghylch lles cyfranogwyr ar raglen *Married at First Sight* Channel 4, gofynnwyd am safbwynt S4C ar y mater. Nodwyd bod tîm profiadol yn goruchwylio lles yr unigolion sy'n ymddangos ar *Amour*, a mynegwyd hyder yn y trefniadau sydd mewn lle. Cyfeiriwyd hefyd at ddau ddigwyddiad ar gyfresi blaenorol, a chadarnhawyd bod y rhain wedi'u trin yn briodol ac effeithiol. O ganlyniad, nodwyd nad oes teimlad ar hyn o bryd fod angen adolygu'r prosesau presennol.<br><br>Nodwyd nad yw cwis wedi bod ar S4C ers nifer o flynyddoedd. Eglurwyd sut datblygwyd *Y Deis*, gan gynnwys buddsoddiad TG4 a alluogodd gyd-gynhyrchu, gan sicrhau gwell gwerth am arian. Amlinellwyd hefyd y bwriad i barhau i ddatblygu'r fformat i'r dyfodol, gan adeiladu ar y sail a osodwyd drwy'r gyfres gyntaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwysleisiwyd pwysigrwydd uwchraddio sgiliau cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Trafodwyd y budd o ddod ag arbenigedd penodol i mewn o'r tu allan pan nad yw'r sgiliau perthnasol ar gael yn lleol, er enghraifft y cyfraniad gan arbenigwr o'r Iseldiroedd i ddatblygiad *Y Llais*, yn ogystal â phenodi 'task producer' i weithio ar *Amour*. Nodwyd bod y dull hwn yn galluogi cwmnïau i ddysgu ac i ddatblygu eu sgiliau eu hunain ar gyfer y dyfodol. Ar yr un pryd, pwysleisiwyd yr angen i fuddsoddi'n ehangach mewn datblygu sgiliau ar draws y sector (er enghraifft drwy gynnal masterclasses), gan gydnabod hefyd fod anghenion sgiliau yn amrywio rhwng cynyrchiadau gwahanol.<br><br>Nodwyd nad yw llwyddiant yn cael ei fesur ar sail ffigurau llinol yn unig. Amlygwyd bod *Y Llais* ac *Amour a Mynydd* yn denu dros 50% o'u gwylwyr o fewn carfannau iau, sef unigolion nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â theledu traddodiadol.<br><br>Cydnabuwyd bod mwyafrif gwylwyr S4C yn parhau i wylio'n llinol, ac felly bod angen parhau i ddarparu cynnwys sy'n diwallu eu hanghenion, hyd yn oed wrth i'r sefydliad symud yn fwyfwy tuag at lwyfannau digidol. Yn y cyd-destun hwn, trafodwyd pwysigrwydd strategaeth glir o ran pa fath o gynnwys y dylid ei gynnig i wahanol gynulleidfaoedd, gan nodi bod cynulleidfaoedd traddodiadol yn tueddu i wylio ystod ehangach o gynnwys, tra bod cynulleidfaoedd iau yn llawer mwy dewisol ac yn ymgysylltu dim ond â chynnwys sy'n apelio'n benodol atynt.<br><br>Pwysleisiwyd yr angen i gomisiynu cynnwys yn gyson ar gyfer cynulleidfaoedd iau, er mwyn meithrin arfer o droi at S4C wrth chwilio am rywbeth i'w wylio, gan adeiladu ar brofiadau cadarnhaol blaenorol. Trafodwyd hefyd yr her bresennol fod cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ddim bob tro'n llwyddo i yrru cynulleidfaoedd at y cynnwys llawn, gyda'r mater hwn yn cael ei ystyried yn fewnol.<br><br>Diolchwyd i BA am ei chyfraniad a llongyfarchwyd gan y Bwrdd ar y gwaith hyd yma.<br><br>[gadawodd BA y cyfarfod] | |
| 6. | **Dashfwrdd cyflawni'r strategaeth gorfforaethol**<br><br>Cyflwynodd GE y dashfwrdd ar gyfer Chwarter 4 2025–26, gan egluro'r fformat yn ogystal â'r trefniadau adrodd cysylltiedig. Nodwyd y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n chwarterol i'r Uwch Dîm Arwain, dwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd, ac y bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei rhannu ddwywaith y flwyddyn gyda'r DCMS. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw rhai elfennau o'r mesuryddion ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys data ar amrywiaeth a lleihau ôl troed carbon.<br><br>Wrth ystyried Amcan 1 o'r Strategaeth nodwyd mai'r targed yw cynnal lefelau perfformiad. Mewn cyd-destun lle mae ffigyrau gwylio'r darlledwyr yn gostwng yn gyffredinol, pwysleisiwyd bod cynnal perfformiad S4C yn her ynddo'i hun yn yr amgylchiadau presennol.<br><br>Holwyd ynghylch cyrhaeddiad tu allan i Gymru, a nodwyd ei fod yn fwy heriol i'w fesur oherwydd maint sampl llai, sy'n arwain at ffigyrau mwy anwadal. Esboniwyd nad oes gan S4C fynediad at yr un seilwaith mesur (e.e. bocsys ychwanegol) y tu hwnt i Gymru, sy'n cyfyngu ar gywirdeb a chysondeb y data.<br><br>Pwysleisiwyd yr angen i barhau i adrodd stori glir i'r gynulleidfa graidd, gan atgyfnerthu eu perthynas â'r sianel. Awgrymwyd y dylid ystyried dull cyfathrebu mwy integredig ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | draws pob llwyfan, er mwyn cyfleu'n gyson y neges fod gan S4C rywbeth i bawb. Yn ogystal, amlygwyd gwerth posibl hyrwyddo'r brand S4C yn ehangach, yn hytrach na chanolbwyntio ar farchnata cynnwys penodol yn unig.<br><br>Esboniwyd bod targedau Amcan 2 y Strategaeth yn cynyddu'n raddol bob blwyddyn hyd at 2030, er mwyn darparu eglurder ynghylch y disgwyliadau perfformiad blynyddol. Nodwyd hefyd, o ran cynnwys cyfryngau cymdeithasol, fod angen rhoi sylw penodol i berfformiad cynnwys sy'n cael ei gomisiynu'n bwrpasol ar gyfer llwyfannau digidol – megis TikTok – gan asesu ei effaith a'i gyrhaeddiad ar sail metrigau priodol ar gyfer y sianeli hynny.<br><br>Nodwyd nad yw'n hawdd sefydlu mesuryddion cadarn ar gyfer Amcan 3, ac felly bod angen derbyn y cyfyngiadau hyn i raddau. Fodd bynnag, gwnaethpwyd cais i ystyried pa elfennau ychwanegol y gellid eu cynnwys o dan yr Amcan er mwyn cryfhau'r darlun perfformiad. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnwys dangosyddion megis GVA, ond nodwyd nad yw S4C yn gwario er mwyn sicrhau'r GVA uchaf – yn hyrtach, mae'n dilyn egwyddorion y Strategaeth Gynnwys, sy'n pwysleisio'r angen i adlewyrchu Cymru gyfan drwy'r cynnwys. Nodwyd ymhellach bod S4C yn hanesyddol wedi osgoi cwotâu rhanbarthol, gyda'r egwyddor graidd yn parhau i fod i gomisiynu'r syniad gorau, yn hytrach na blaenoriaethu lleoliad daearyddol y cynhyrchiad.<br><br>**Penderfyniad: Ystyried ymhellach os oes unrhyw fesuryddion pellach y gellid eu cynnwys mewn perthynas ag Amcan 3.** | |
| 7. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (29/04/2026)<br>• Y Pwyllgor Cynnwys (13/05/2026)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (14/05/2026)<br>• Y Pwyllgor Achosion<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Nodwyd bod S4C bellach wedi sicrhau caniatâd i ddangos hysbysebion ar y ffrwd fyw ar iPlayer, gyda'r newid i ddod i rym o'r wythnos nesaf ymlaen er mwyn cyd-fynd â'r Urdd. Esboniwyd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda noddwyr, ac y bydd hysbysebion llawn yn dilyn yn fuan wedi hynny.<br><br>Nodwyd hefyd y bydd arbenigwr yn cael ei benodi i gynnal adolygiad o'r Gronfa Dwf, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i Fwrdd y Grŵp Masnachol yn yr hydref.<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Gwnaeth SuD dynnu sylw at y prif drafodaethau ynghylch diogelwch seibr, gan nodi sylwadau Helen Rabe (Prif Swyddog Diogelu Data'r BBC) ei bod yn teimlo bod S4C ar y cyrion ar hyn o bryd, ac y dylai'r sefydliad chwarae rôl fwy blaenllaw mewn fforymau newydd y BBC sy'n ymwneud â diogelwch seibr ac AI. Adroddodd EM iddi hi a GT gael sgwrs fuddiol iawn yn ddiweddar gyda thîm y BBC sy'n gyfrifol am lywodraethiant | |

| | | |
|---|---|---|
| | diogelwch seibr, gan awgrymu bod cyfleoedd i gryfhau'r berthynas a'r cydweithio mewn llaw. | |
| 8. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br>Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain<br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br>Ystyried yr agwedd 'Tybiaeth Cwmni Gweithredol' (ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2025–26)<br><br>**Penderfyniad: I nodi'r adroddiad, a chytuno y dylid llunio cyfrifon S4C ar sail 'tybiaeth cwmni gweithredol'.**<br><br>Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg<br><br>**Penderfyniad: Penodwyd Wyn Innes fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg o 01 Awst 2026 ymlaen.**<br><br>Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 483, a gynhaliwyd ar 19/03/2026.<br><br>Pwyntiau Gweithredu<br><br>Nodwyd y Pwyntiau Gweithredu.<br><br>Rhaglen Waith<br><br>Nodwyd y rhaglen waith. | |